

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYNNYDD WYTHNOSOL 25 Hydref - 31 Hydref 2021

1 Tachwedd 2021 Argraffiad 42

Rhaglen Brechiadau Atgyfnerthu Covid-19

Ers lansio rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19 ar 20 Medi 2021, rydym wedi rhoi 18,383 o ddosiau atgyfnerthu, wedi ymweld ac wedi brechu 1,635 o breswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn o 88 o gartrefi gofal o fewn ardal y Bwrdd Iechyd. Byddwn yn cynnig brechiadau yn y cartrefi gofal sy'n weddill pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Rydym wedi rhoi brechiad Atgyfnerthu Covid-19 i:

Bobl dros 80 oed	18,383	63%
75 - 79 oed	16,917	71%
70 - 74 oed	13,626	42%
Gweithwyr cartrefi gofal	4,489	

Pwy fydd yn cael eu brechu'r wythnos hon?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar frechu pobl dros 80 a 75 oed, ac unigolion imiwnoatiedig dros 12 oed.

Sut fyddaf yn cael fy ngwahodd i fy apwyntiad am frechiad atgyfnerthu COVID-19?

Bydd unigolion yn cael llythyr gyda gwahoddiad i fynd am apwyntiad i gael brechiad atgyfnerthu Covid-19, yn y drefn y cawsant eu hail ddos.

Ymhle y caf gynnig brechiad?

Bydd trigolion cymwys sy'n byw ym **Mlaenau Gwent, Torfaen, Bwrdeistref Sirol Caerffili neu Gasnewydd** yn cael gwahoddiad gan y Bwrdd Iechyd i fynychu Canolfan Brechu Torfol yng Nglynebwy, Pontllanfraith, Casnewydd neu Gwmbrân.

Bydd trigolion cymwys sy'n byw yn **Sir Fynwy** yn cael gwahoddiad i fynd am frechlyn gan naill ai'r Bwrdd Iechyd

Dyma Moira Blackburn o Gaerleon, Casnewydd. Dyma lun ohoni'n cael ei brechiad atgyfnerthu Covid-19;



Dywedodd Moira; *"Er mwyn bod yn ddiogel, rwy'n cael fy mrechu ac yn aros y tu mewn. Mae'r bobl nad ydynt wedi cael eu brechu'n wirion, a gallant eu diogelu nhw eu hunain ac eraill o'u hamgylch nhw."* Cafodd Moira fwynhâd o'i gyrfa fel Nyrs, ac mae hi wedi magu tri o blant.

Dyma Brenda a Malcolm Edwards (Gŵr a gwraig), o Sain Ffraid, Casnewydd. Dyma lun ohonynt yn cael eu brechiadau atgyfnerthu Covid-19;



Dywedodd Brenda; *"Byddwn yn cymryd pwyll wrth ddewis ble i fynd, ond byddwn yn aros gartref cymaint â phosibl yn ystod y gaeaf eleni."* Roedd Malcolm yn gweithio fel Plismon, ac roedd Brenda yn was sifil. Cawsant ddathlu eu pen-blwydd priodas diemwnt yn ddiweddar.

WYTHNOS I DDOD 1 TACHWEDD – 7 TACHWEDD 2021

Nid ydym yn gadael unrhyw un ar ôl

Os ydych yn 12 oed neu hŷn, ac yn dal i ddisgwyl i gael eich **dos cyntaf YN UNIG**, ewch i unrhyw ganolfan ar draws y Bwrdd Iechyd heb apwyntiad, neu trefnwch apwyntiad i gael eich brechu drwy ein tîm cyswllt trefnu ar 0300 303 1373

Mae clinigau galw-i-mewn ar gael ar gyfer brechiadau dos cyntaf yn unig.

Beichiogrwydd

Gweler y cyngor diweddaraf ar feichiogrwydd a'r Brechiad Covid-19 drwy'r dolenni canlynol:

<https://phw.nhs.wales/news/coronavirus-vaccine-benefits-far-outweigh-risks/>

- <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/patient-information/covid-19-vaccination-and-pregnancy/>

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu eich apwyntiad am frechlyn.

Heb gael eich dos cyntaf NEU'n dal i ddisgwyl eich ail ddos o'r brechiad COVID-19?

Os nad ydych wedi cael eich **dos cyntaf**, neu os ydych yn **disgwyl eich ail ddos** o'r brechiad COVID-19 o hyd, cwblhewch y ffurflen sydd ar gael drwy'r ddolen isod gan sicrhau eich bod yn nodi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Ar ôl i ni dderbyn y wybodaeth, byddwn yn gwirio eich cofnod brechiadau blaenorol, ac os yw'n gywir, byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion eich apwyntiad o fewn 72 awr. **Noder, rhaid i chi fod wedi cael eich dos cyntaf o leiaf wyth wythnos cyn cael yr ail ddos**

<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/still-not-received-a-first-dose-or-still-outstanding-your-second-dose-covid-19-vaccination/>

Wedi cael eich ail ddos cyn, neu ar, 31 Mawrth 2021, ac yn disgwyl manylion eich apwyntiad atgyfnerthu o hyd?

Os cawsoch eich ail ddos o'r brechiad COVID-19 cyn, neu ar, 31 Mawrth 2021, ac yn disgwyl cynnig apwyntiad atgyfnerthu o hyd, cwblhewch y ffurflen isod gan sicrhau eich bod yn nodi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Ar ôl i ni dderbyn y wybodaeth, byddwn yn gwirio eich cofnod brechiadau blaenorol a chymhwysra ar gyfer y brechiad atgyfnerthu, ac os ydych yn gymwys ar gyfer y brechiad, bydd ein tîm yn cysylltu â chi.

<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/received-your-second-dose-on-or-before-march-31st-2021-and-still-not-received-details-of-your-booster-appointment/>

Mae Gwybodaeth ynghylch Pas Covid y GIG ar gael yn <https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section-70608>

Neu drwy ffonio **0300 303 5667**

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i: <https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>

Imiwnoatalliedig ac angen trydydd dos sylfaenol?

Os ydych yn teimlo bod hyn yn berthnasol i chi, llenwch y ffurflen hon:

<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/immunosuppressed-and-require-a-third-primary-dose/>

Ar ôl i ni dderbyn y wybodaeth, byddwn yn cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich sefyllfa a byddwn yn cysylltu'n ôl â chi.



Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rcog.org.uk/covid-vaccine